Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pontrhydfendigaid
Pontrhydfendigaid
Ystrad Meurig
Ceredigion
SY25 6BL

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ar gyrion y pentref ac mae’n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae 65 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar gofrestr yr ysgol, mewn tri dosbarth oed cymysg. Tua 15.4% o'r disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae 18.4% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 54% o’r disgyblion yn dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 2005, ac mae’n gofalu am ddwy ysgol gyfagos yn ychwanegol i’w swydd ym Mhontrhydfendigaid. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym mis Mawrth 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yn 2014-2015 yw £3,621. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Ceredigion yw £8,697 a'r lleiafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yn y 34ain safle o'r 51 ysgol gynradd yn Sir Ceredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion cyfredol yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus
- Llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl i ddatrys problemau'n effeithiol
- Disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith
- Llais y disgybl yn gryf ac yn dylanwadu ar gymuned yr ysgol
- Disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- Gwaith tîm pwrpasol rhwng yr holl staff yn sicrhau amgylchedd dysgu sy'n gefnogol ac ysgogol
- Yr addygu'n gyson effeithiol ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Arweinyddiaeth flaengar a phwrpasol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol
- Y pennaeth yn arwain tair ysgol o fewn system ffederal yn fedrus a bod staff yr ysgolion yn cydgynllunio ac yn rhannu arfer dda
- Defnydd da o arbenigedd gwahanol aelodau o staff
- Hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda a bron pob un o'r meysydd sydd angen eu gwella
- Arweinwyr yn monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella yn effeithiol
- Yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfoethogi'r ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Codi'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 fel eu bod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A2 Gwella presenoldeb fel bod y canran yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A3 Cryfhau rôl monitro'r arweinwyr canol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau disgyblion yn anghyson ac mae eu medrau llythrennedd yn is na'r medrau eraill. Fodd bynnag, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd da. Maent yn gweithio'n ddiwyd yn y gwersi gan wneud cynnydd priodol yn erbyn disgwyliadau'r athro. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol, er enghraifft trwy ddatrys problemau mathemategol yn ymwneud â thrip i Lundain.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos medrau gwrando da yn gyson. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn medru cyfleu gwybodaeth syml yn fywiog yn y Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi barn yn llwyddiannus yn y ddwy iaith wrth gyflwyno gwybodaeth a thrafod gyda cyfoedion ac oedolion.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar goedd yn y Gymraeg gyda mynegiant da ac yn trafod eu llyfrau yn hyderus. Wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd, mae llawer o'r disgyblion yn gallu defnyddio strategaethau effeithiol i ddarllen yn annibynnol. Mae bron pob un yn cymhwyso eu medrau darllen yn fedrus wrth ailddarllen disgrifiadau yn eu gwaith ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys llyfr yn ddeallus ac yn gallu esbonio'n glir beth yw pwrpas broliant. Gallant gynnal trafodaeth estynedig am eu hoff awduron. Mae llawer o'r disgyblion yn y cyfnod hwn yn darllen ar goedd yn glir ac yn llawn mynegiant yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith yn llwyddiannus gyda'r rhan fwyaf yn ysgrifennu ystod o frawddegau'n annibynnol. Gall bron pob un ychwanegu cymariaethau ac ansoddeiriau yn eu brawddegau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddisgrifio eu cerbydau gofod personol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu o fewn y pwnc ac ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae ansawdd sillafu, atalnodi a chyflwyniad gwaith cyfredol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu ac maent yn defnyddio'r rhain yn llwyddiannus wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Maent yn casglu gwybodaeth a chofnodi eu canlyniadau yn gywir, er enghraifft ar ffurf graffiau bloc. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd yn llwyddiannus; er enghraifft, wrth iddynt fesur y pellter mae cerbyd yn teithio wedi ei ollwng i lawr llethr.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau geiriol sy'n ymwneud â màs ac amser yn llwyddiannus. Maent yn pwyso a mesur cynhwysion yn gywir i greu cacennau i'w gwerthu mewn bore coffi. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa fathemategol sy'n briodol i'r dasg, gyda llawer yn gwirio canlyniadau i ystyried os ydynt yn rhesymol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn defnyddio fformiwlâu i fesur arwynebedd trionglau a phetryalau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hyn yn defnyddio'u medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 yn gyffredinol yn anghyson. Yn 2014, llwyddodd 100% o'r disgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r perfformiad o ran llythrennedd wedi bod yn y 50% is am y mwyafrif o'r cyfnod mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant uwch (deilliant 6) ac wedi bod yn gyffredinol yn y chwarteli uwch am y mwyafrif o'r tair blynedd ddiwethaf.

Bu gostyngiad ym mherfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2014 o ran cyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch ac nid oedd y perfformiad yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Tros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion yn y lefelau a ddisgwylir yn anghyson. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 4 wedi bod yn y 25% isaf am lawer o'r cyfnod. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi bod yn y 25% isaf yn gyson o ran cyrraedd lefel 4 ac am lawer o'r amser o ran lefel 5. Fodd bynnag, mae hwyrddyfodiaid i'r ysgol yn cael effaith nodedig ar sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg o ran safonau'r Gymraeg, yn arbennig o ystyried y nifer fach sydd mewn carfan.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd ddiwethaf hefyd yn anghyson. Yn Saesneg, mae'r perfformiad wedi bod yn y 50% uwch neu well am hanner y cyfnod. Mae perfformiad yn mathemateg a gwyddoniaeth yn fwy cyson ac wedi bod yn y 50% uwch neu well am lawer o'r cyfnod.

Nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am dim o'u cymharu a'u cyfoedion, nac ychwaith rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae'r bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth sicr o sut y gallant fyw yn iach trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at gadw'n iach ac maent yn cymryd cyfleoedd cyson i ymarfer corff yn ystod gweithgareddau a drefnir gan y llysgenhadon chwaraeon a'r gweithgareddau ar ôl ysgol.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae ymddygiad y disgyblion yn y gwersi a thu allan yn un o gryfderau'r ysgol. Maent yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Yn gyffredinol, maent yn llawn cymhelliant tuag at eu gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol, yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad yn y gwersi, ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Gall llawer o ddisgyblion alw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno. Trwy ddefnyddio mapiau meddwl a thrafodaeth ddosbarth, mae disgyblion yn dylanwadu'n briodol ar yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae llais y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn effeithio ar fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn hyn. Enghraifft dda yw eu cyfraniad i ddatblygu'r ardal tu allan, a'r ystod o adnoddau sydd yno. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i'r gymuned leol drwy amrywiaeth o weithgareddau, fel eisteddfodau Pantyfedwen a Swyddffynnon a gweithgareddau codi arian.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar y cyd gydag athrawon y tair ysgol ffederal gan gynnig dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth. Trwy hyn, maent yn sicrhau eu bod yn ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r trefniadau'n ymateb i anghenion yr ystod eang o ddiddordebau a gallu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol, fel ymweliadau pwrpasol a chlybiau ar ôl ysgol, sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio'n seiliedig ar ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Fodd bynnag, priodol yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth fuddiol i wella medrau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion hynny.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion am ddiwylliant a hanes Cymru yn gynhwysfawr. Maent yn dysgu am yr ardal leol yn drylwyr ac am awduron o Geredigion megis Lyn Ebeneser a T Llew Jones. Mae'r disgyblion yn cyfrannu a chystadlu'n rheolaidd mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, gyda llwyddiant mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau.

Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael eu hyrwyddo yn llwyddiannus trwy waith y cwricwlwm a'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r ysgol wedi datblygu gardd lysiau a thwnnel tyfu sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer

datblygu medrau mentergarwch y disgyblion. Mae disgwyliadau uchel yr athrawon yn sicrhau bod y pwyllgor eco yn ddiwyd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri trwy ailgylchu, arbed ynni a chasglu gwastraff bwyd ar gyfer biniau compost. Mae'r ysgol wedi sicrhau cyfleoedd priodol i hybu dealltwriaeth trwy brosiectau rhyngwladol, ac mae'r wythnos fasnach deg flynyddol yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd chware teg i weithwyr mewn gwledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Mae effaith yr addysgu ar waith yr ysgol yn dda. Mae gan yr athrawon berthynas waith fuddiol gyda'r disgyblion ac maent yn llwyddo i greu awyrgylch lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ymddiried yn y staff. Defnyddia'r athrawon ystod o ddulliau addysgu sy'n cymell y disgyblion a gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol. Maent yn sefydlu amcanion dysgu clir ac yn eu rhannu'n briodol gyda'r disgyblion fel eu bod nhw'n ymwybodol o beth yw nod y wers a'r disgwyliadau. Mae'r holl athrawon yn gwneud cysylltiadau effeithiol gyda gwaith blaenorol sydd yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn ystod y wers. Maent yn holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn ymestyn eu meddwl a sicrhau eu bod yn deall y gwaith.

Ar y cyfan, mae athrawon yn creu cynlluniau gwersi pwrpasol ac yn addasu'r gwaith yn fedrus i ddiwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd. Mae'r cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymhorthyddion yn un o gryfderau'r ysgol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna'r disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu medrau trin data a modelu gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae'r athrawon yn gweithredu system effeithiol er mwyn olrhain cynnydd disgyblion unigol. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i ddarparu'n bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r disgyblion yn derbyn adborth llafar buddiol gan y staff er mwyn iddynt ddeall sut i wella'u gwaith. Mae'r athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd, ac yn yr enghreifftiau gorau mae'r sylwadau yn gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant yn gyson. Mae'r adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn dathlu cynnydd y disgyblion ynghyd â gosod cyfeiriad at sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd iechyd a lles yn effeithiol. Datblygir ffitrwydd y disgyblion yn llwyddiannus trwy feithrin disgyblion i weithredu fel llysgenhadon chwaraeon yn ystod amser chwarae. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cynnwys cynnig dyddiol i brynu ffrwythau, darparu dewis o fwyd iach ar gyfer cinio a rhoi cyngor i rieni ar gynnwys pecynnau bwyd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Trwy gynnwys cyfleoedd i fyfyrio yn rheolaidd mewn gwasanaethau boreol, mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau cadarn o ran delio â gwahaniaethu, aflonyddwch a bwlio. Mae dangos parch at eraill yn amlwg yn yr ysgol, ac mae'r pwyslais hwn wedi ei rannu yn effeithiol gan gael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad y disgyblion.

Mae’r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Maent yn cynnig darpariaeth effeithiol ar eu cyfer trwy ystod o raglenni ymyrraeth yn seiliedig ar gynlluniau addysg unigol. Canolbwyntia’r rhaglenni hyn yn briodol ar ddatblygu anghenion llythrennedd a rhifedd. Mae’r cynlluniau yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac mae’r ysgol yn cynnwys y rhieni yn y broses yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol gan gynnwys cefnogaeth tîm anghenion addysg arbennig yr awdurdod a gwasanaeth therapydd iaith i sicrhau bod y disgyblion hyn yn derbyn y gynhaliaeth briodol i wneud cynnydd.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion a dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn amgylchedd diogel, trefnus a diwyd lle y dangosir parch at bawb a chyfle cyfartal. Mae llais y disgybl yn cael eu hyrwyddo yn llwyddiannus, sydd yn un o gryfderau’r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd mae’r disgyblion yn parchu’r adnoddau, gan eu bod wedi bod wedi chwarae rhan yn eu darparu. Mae'r gwaith tîm pwrpasol rhwng yr holl staff yn sicrhau amgylchedd dysgu cefnogol o ansawdd da. Mae’r ysgol yn cynnig hawl gyfartal i’r cwricwlwm, yr ymweliadau addysgol a’r gweithgareddau allgyrsiol.

Er bod yr adeilad yn hen, mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o’r adnoddau sydd ar gael. Ar y cyfan, mae'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn cyflwr da. Mae’r arddangosfeydd addysgol yn ysgogi a chefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae’r ardaloedd awyr agored wedi eu datblygu a’u trefnu'n dda ac yn bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn fwriadus ac yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion hŷn. Er enghraifft, mae’r rhes siopau bychan yn datblygu chwarae rôl yn llwyddiannus ac mae’r ardd a’r twnnel tyfu llysiau yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am sut i dyfu a gofalu am lysiau. Mae safon glanweithdra, cynnal a chadw a diogelwch yr ysgol a’r tir yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth flaengar a phwrpasol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth bendant, ac mae’n llwyddo i rannu’r weledigaeth honno yn llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae’r pennaeth yn arwain tair ysgol o fewn system ffederal yn fedrus. Mae’r gweithdrefnau i sicrhau cydweithio rhwng y tair ysgol yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae’r pennaeth yn dosrannu cyfrifoldebau yn effeithiol, ac mae pob aelod o’r staff yn datblygu eu rolau fel arweinyddion canol yn briodol.

Drwy arweinyddiaeth y pennaeth, mae staff y tair ysgol yn cydgynllunio ac yn rhannu arfer dda, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a dysgu. Mae'r staff yn monitro safonau rhifedd a llythrennedd yn gyson, ac o ganlyniad, mae safonau cyfredol yr ysgol yn dda. Fodd bynnag, mae monitro'r ddarpariaeth i sicrhau bod yr holl gynlluniau yn cael eu gweithredu'n llawn ychydig yn llai effeithiol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu. Er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus ac mae'r ysgol yn rhan o weithgor sydd yn rhannu arferion da'r Cyfnod Sylfaen gydag ysgolion eraill ar draws y Sir.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth yn dymhorol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth drylwyr am waith a pherfformiad yr ysgol. Mae llywodraethwyr wedi cychwyn monitro gwersi, craffu ar lyfrau a thrafod gwaith disgyblion gyda chydlynwyr pwnc, gan gyd-drafod argymhellion ar gyfer yr adroddiadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'u gwybodaeth i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cadarn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi arwain at welliannau mewn darpariaeth a safonau. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gyfrannu at y broses hunanarfarnu, gan gynnwys barn y rhieni a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i hyn, er enghraifft trwy wahodd awdur arbennig i ysbrydoli bechgyn i ddatblygu eu medrau ysgrifennu.

Ar y cyfan, mae trefniadau monitro deilliannau'r ysgol yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd cyfredol yr addysgu a'r dysgu. Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd trwyadl o ddata cyrhaeddiad i bennu targedau ar gyfer gwella. Mae arweinyddion canol yn dadansoddi data ar lefel dosbarth a disgyblion unigol yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg wedi datblygu i'r un graddau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod cryfderau'r ysgol yn llwyddiannus, a bron pob un o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae gan yr athrawon rolau pendant wrth greu a gweithredu agweddau penodol o'r cynllun. Mae arfarniad y cynllun gwella ysgol flaenorol yn gynhwysfawr ac yn cael ei ddefnyddio'n dda i lywio'r cynllun presennol. Mae'r cynllun gwella ysgol yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rheini. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cefnogi gweithgareddau dysgu yn fwriadus. Er enghraifft, mae'r rhieni yn hyrwyddo medrau mentergarwch y disgyblion gan godi eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith yn llwyddiannus trwy weithgaredd yn yr ardd a gwaith crefft. Mae'r gymdeithas cyfeillion yn trefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus i godi arian i'r ysgol yn gyson er mwyn prynu adnoddau, fel offer TGCh a chaban pwrpasol i ehangu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a’r gymuned yn gryf. Mae’r disgyblion yn cyfrannu at lwyddiant eisteddfodau lleol, plannu blodau a chadw’r ardal yn lân. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a’u balchder amlwg yn eu hardal leol.

Mae’r partneriaethau â’r awdurdod lleol, trwy ymweliadau monitro, yn cyfrannu’n effeithiol at wella ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Mae’r bartneriaeth fuddiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol yn sicrhau ymateb priodol i gefnogi disgyblion bregus pan fo’r angen. Enghraifft arall werthfawr yw’r ddarpariaeth diogelwch ar y we i ddisgyblion gan swyddog cyswllt yr heddlu.

Mae’r ysgol yn gweithio’n hwylus gyda’r cylch meithrin lleol i sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n gyflym yn y dosbarth derbyn. Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i’r ysgol uwchradd yn effeithiol gan baratoi’r disgyblion hŷn yn dda iawn ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r ysgol wedi cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau’r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn eu hasesiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol ac mae ganddi nifer briodol o staff i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae’r cydweithio rhwng y tair ysgol ffederal yn llwyddiannus, gan wneud defnydd da wrth rannu adnoddau, arfer dda ac arbenigeddau’r staff; er enghraifft, mae penaethiaid cynorthwyol y tair ysgol yn gydlynwyr meysydd gwahanol dros yr ysgolion. Ar y cyfan, mae’r trefniadau yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau.

Mae’r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac mae’r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy’n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau’r ysgol. Mae’r athrawon yn derbyn amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Er hyn, nid yw’r cynllunio tymor hir yn cael ei drosglwyddo i'r cynlluniau wythnosol yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion hŷn, er enghraifft, yn cael digon o gyfleoedd i astudio crefyddau eraill.

Gweithia’r ysgol yn effeithiol o fewn rhwydwaith o arfer broffesiynol sydd yn canolbwyntio ar strategaethau codi safonau sillafu Saesneg y disgyblion. Mae’r gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar safonau’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau’r ysgol. Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth y llywodraethwyr, yn monitro ac yn rheoli’r gyllideb yn ofalus. Er y niferoedd bychain o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

O ystyried y safonau mae’r disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672353 - YSGOL GYMUNEDOL PONTRHYDFENDIGAID**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 8 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.7 | 50.0 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.7 | 37.5 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 62.5 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672353 - YSGOL GYMUNEDOL PONTRHYDFENDIGAID**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 10 | 8 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 70.0 | 100.0 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 60.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 40.0 | 50.0 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 2 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 70.0 | 75.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 10.0 | 12.5 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 90.0 | 100.0 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 50.0 | 50.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 50.0 | 50.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 29 | 29<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 29 | 29<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 29 | 29<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 29 | 29<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 29 | 29<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 29 | 29<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 29 | 29<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 29 | 29<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth l'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 29 | 28<br>97%<br>91% | 1<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 29 | 28<br>97%<br>95% | 1<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 29 | 28<br>97%<br>77% | 1<br>3%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 29 | 29<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 46 | 36 | 10 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 46 | 40 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 46 | 42 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 46 | 33 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 46 | 29 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 46 | 36 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 46 | 35 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 44 | 26 | 13 | 2 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 59% | 30% | 5% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 46 | 36 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 45 | 32 | 12 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 71% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 46 | 31 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 45 | 35 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 78% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 46 | 33 | 13 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 46 | 37 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 46 | 32 | 13 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 70% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 46 | 35 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 76% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 40 | 28 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 70% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 45 | 35 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 46 | 35 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Catherine Ann Deschoolmeester | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joyce George | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.